

AMDANOM NI

Fel rhan o Amdanom Ni, bu tîm o feirdd yn cyflwyno gweithdai barddoniaeth mewn ysgolion cynradd ym mhob un o leoliadau'r sioe. Roedd y gweithdai'n archwilio rhai o'r ffyrdd niferus y mae bywyd yn gysylltiedig ar draws y bydysawd. Creodd pob dosbarth y buom yn gweithio gyda nhw gerdd gydweithredol yn archwilio pynciau fel cosmoleg, natur, hunaniaeth a hinsawdd. Ysgrifennwyd y cerddi hyn gan ysgolion yng Nghaernarfon, ar y cyd â'r beirdd Anni Llŷn, Branwen Haf Williams, Gruffudd Owen & Grug Muse.

Ysgol Bontnewydd.....	2
Ysgol Bontnewydd.....	3
Ysgol Llandwrog.....	4
Ysgol Llandwrog.....	5
Ysgol Llandwrog.....	6
Ysgol Maesincla.....	7
Ysgol Maesincla.....	8
Ysgol Maesincla.....	9
Ysgol Maesincla.....	10
Ysgol Maesincla.....	11
Ysgol Maesincla.....	12
Ysgol Maesincla.....	13
Ysgol Maesincla.....	14
Ysgol Rhostryfan.....	15
Ysgol Rhostryfan.....	16
Ysgol Rhosgadfan.....	17
Ysgol Santes Helen.....	19
Ysgol y Gelli.....	20
Ysgol yr Hendre.....	21
Ysgol yr Hendre.....	22

AMDANOM NI

Ysgol Bontnewydd

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

Clyw

Pan dwi'n hapus dwi fel haul yn disgleirio.

Pan dwi'n flin dwi fel corwynt yn gwibio.

Pan dwi'n ofnus dwi fel mynydd,

yn llonydd, llonydd.

Pan dwi'n gweiddi dwi fel gwynt yn rhuo.

Clyw!

Sŵn glaw annisgwyl;

cymylau'n crio.

Pan dwi wedi cyffroi dwi fel mwnci'n sgrechian.

Pan dwi'n cysgu dwi fel babi panda bychan.

Pan dwi'n colli 'nhempar dwi fel tarw.

Clyw!

Y creigiau garw, garw.

Pan dwi ar fy mhen fy hun dwi fel planed Plwto.

Pan dwi'n oer dwi fel y lleuad yn crynu heno.

Pan dwi'n benderfynol

Dwi fel carreg anferthol.

Clyw!

Arogl hallt y môr.

Clyw ni'n dweud fel un côr;

Mae rhain i gyd ynom ni.

Y byd yw ti a fi.

AMDANOM NI

Ysgol Bontnewydd
crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

Y Trychfilod

Aderyn bygythiol sydd uwch ben
Y fuwch goch gota smotiog
A gwythiennau gwad glas
Y pryf copyn heglog.
Mae sioncyn y gwair yn sefyll
Clyw...
Sŵn saith siswrn.
Dim ond dynion sy'n hedfan
ym myd y pryfaid tân
mân, mân.
A chwarae mae'r chwilan
O dan y coed
Gyda'r neidr bedwardegchwechdroed!
Y pethau pitw sy'n perthyn,
Yn cosi'n traed,
Yn gwneud ni chwerthin.

AMDANOM NI

Ysgol Llandwrog

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Branwen Haf Williams

Cysylltiad

'Da ni'n fyw,
Ar y blaned,
Yn anadlu
Yn rhan o'r byd mawr crwn
'Da ni'n neidio'n uchel
A'n gwibio'n gyflym fel y gwynt.
Gweryru, mewian, gwichian,
Yn ymestyn yn dal fel ystol,
Weithiau'n flin, weithiau'n dawel
Rhuo trwy'r gorffennol.
'Da ni'n llosgi fel tân,
Arnofio fel dolffiniaid yn y gofod
Mewn cylchoedd mawr a bach.
'Da ni'n perthyn fel teulu
Mor agos a llanw a thrai
Y grymoedd sy'n ein dal ni 'lawr
Yn gwneud i ni holi ac archwilio'r
Bydysawd serog, swynol, sgleiniog.

AMDANOM NI

Ysgol Llandwrog

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Branwen Haf Williams

Corff Caernarfon

Mae corff Caernarfon yn iach a hapus
Stryd y Plas coesau cawr
Bwytaï blasus yw'r bol
Curiad calon ysgolion
Y cei fel llyfan barcyd
Uwch ysgyfaint y môr
Miloedd o dai fel neidr o weithiennau
Prysurdeb McDonalds fel pyls
O dan glustiau'r Wyddfa,
A'r castell a'i goron ddisglair ar ei ben.

AMDANOM NI

Ysgol Llandwrog

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Branwen Haf Williams

Ni Ydi...

Ni ydi sŵn ceir a'r cloc larwm,
Radio'r adar, ffrae o ffrindiau ffeind.

Ni ydi arogl cathod a woffls,
Selotêp newydd a lolipops lemon.

Ni ydi blew bol y ci o dan ein bysedd,
Y brwsh dannedd yn dirgrynu'r dannedd.

Ni ydi blas hen wyau,
Chips, churos a Cheinis.
Madarch meddal a smwddis Swig.

Ni ydi'r anifeiliaid a'r natur,
Y ceir a'r coed a'r cariad rhwng y bobl.

Ni ydi'r gwahanol sydd 'run peth.
Ni ydi'r byd.

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Caernarfon

David Lloyd George – (neu 'bird poo boy')
yn edrych i lawr ar y byd yn troi;
gwylanod chiclyd yn heidio'n un criw,
fel hogia Maesincla, efo'i hiaith bob lliw.
Perfume Neinia' ac aftershave plant
ac amball i rafin efo calon sant.
Ryw betha' fel yma ydi'n tre fach ni,
efo'i hogla vape, a'i chips a'i baw ci.

Y mw-mŵs yn mw-mŵio wrth y castall bach
a'r Fenai a Twthill, ac awyr iach,
miwsig gangsta yn blastio o ffôn
wrth i genod ysgol sgwario lawr lôn,
hen bobol garedig yn eu ceginau clud
efo'i dyddiau rhad a'u eiliadau drud.
Ryw betha' fel yma ydi'n tre fach ni;
y dre sy'n gwbod yn iawn pwy 'dw i.

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Pensal

Roedd y bensal yma'n arfer bod
yn goeden. Un dal a hardd
efo gwallt gwyrdd gwlyb
ac roedd ganddi goedwig
o ffrindiau yn gwmni.
Mae hi'n cofio teimlo'r pryfaid
fel gemwaith
llachar am ei gwddw
a'r adar yn canu cerddi rhwng ei dail.
Roedd hi'n gwybod,
er gwaetha'i gwreiddiau,
bod ei thraed hi'n rhydd.

Roedd hynny cyn i ddanedd
lli gadwyn ei brathu
hi'n racs a'i brifo i'r byw.

Ond mae hi'n dal i gofio
yr haul a'r gwynt yn ei gwallt gwlyb;
ac efallai, os gwrandewch chi'n astud,
y gwnaiff hi gynnig ei cherddi
i law yr un
sydd yn gafael amdani'n dynn.

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Ni

Pwy 'da ni...?

Y Cofis Cwl! Mwncis Maesincla!

Criw Caffi Cei! Cesus Costa!

Beirdd Ben Byrdda, efo twll yn eu sanna!

(Digon o lel gadw Bananna!)

Riley Rech!!estyn testun!

Caernarfon Cave girls! Cofis Cwstard!

Y grwp grwfi!Y Gang grêt!

Dreigia dre'! Kebabs Caernarfon!

A be da ni ishio....?

KFC! Cŵn cŵl crazy!

Castell llawn cwstard!Ci mewn cwpan!

Doughnuts Dyncio!Teyrnas Teidiau!

A muriau mawr llawn cerddi Cofi!

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Y Traeth

Mae 'na granc yn dawnsio fel dyn 'di meddwi
a gwylan fel plusman yn sgrechian ei seiran,
(cyn dwyn ambell jipsan);
a'r cregyn yn crenshan dan draed fel cnoi crisps
a'r dolffins yn dilyn ei gilydd
fel defaid yn prancio'n y tonnau;
Llamhidyddion llawn hwyl.
Ond gwylwch sioc drydan y sglefran fôr sglyfath!
Mae'r gwymon yn llithrig fel llaw fferi licwid.
Gwell chill-io 'fo chocolate
ar y tywod siwgrllyd,
ac ymlacio fel mochyn
yn hapusrwydd yr haul.

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Rydan ni'n gwybod...

Hanes Segontiw a'r castell a'r skate-park
a holl gyfrinachau y tonnau a'r tai,
a gyd 'da ni ishio
'di beirdd bach llai boring
a digon o ginio dydd sul bob dydd lau!
A dyddiau hirfelyn ym mharc dros yr Aber
a Nel ar y teli, ar Heno, bob nos!

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Ein bywyd ni

"Bore gwyntog ym Maesincla
ac mae brawd bach fi fyny ers pedwar yn bora
yn gneud lot o synna wrth chwara 'fo toys.
Mae ci fi'n rhedag a rhedag a rhedag,
achos bod o'n boncyrs,
rownd a rownd y room ffrynt.
Pannad o de, efo tri lwmp o siwgwr (neu dau, os ti'n healthy)
achos mae panad heb siwgwr yn blasu'n hyll.
Drwy'r ffensast oer mae 'na seagulls barus
yn cael ffeit efo bin-bag ac yn chwalu fo'n racs;
a draw yn y pellter mae mynyddoedd fel cyllyll
yn sbio'n fygythiol arna ni lawr fan hyn.
Wrth gyffwrdd drws car mae brên fi'n cofio
ogla Pizza-hut Llandudno,
y lle gora'n y byd.
Ac wrth i'r tai wagio
aiff y ci nôl i gysgu
er mwyn cael breuddwydio
am dragwyddoldeb... a bwyd."

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Hei Mr Lloyd!

Hei Mr Lloyd! Rydach chi'n buta coed!

Yn marcio llyfrau maths ac yfad coffi.

Hei Mr Lloyd! Da chi'n ddau ddeg saith oed!

A chwara teg di traed chi byth yn smeli!

AMDANOM NI

Ysgol Maesincla

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Gruffudd Owen

Hon....

Hon ydi'r dre lle mae castell llawn ysbrydion
yn cysgu wrth y cei.

Hon ydi'r dre lle mae'r genod a'r hogia
mor sassy sna'm gobaith
iddyn nhw gerddad yn sdret!

Hon ydi'r dre lle mae ffrindiau fel cotia'
yn cadw ni'n gynnas mewn neuaddau oer.

Hon ydi'r dre lle mae cathod fel teigrod
yn chwilio am fwytha
gan pobol randym.

Hon ydi'r dre lle mae'r Gymraeg braidd yn sdici
fel fferins o shop Super Cigs.

Hon ydi'r dre sy'n swatio, jyst am rwan,
rhwng eliffant cysglyd a neidar o fôr.

AMDANOM NI

Ysgol Rhostryfan

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

Amdanom Ni

200 smotyn ar y jiraff
Fel y brychni haul ar fy nhrwyn.
4 lliw yw byd y ci
sy'n cuddio yn y llwyn.

Mamalod cigysol yw cathod,
Cinio dydd sul yw fy hoff fwyd.
350,000 o bobl ar yr Wyddfa
ar hyd y llethrau llwyd.

Mae jellyfish yn perthyn i'r cwrel
a llwynogod yn hoffi chwarae,
fel ni a phlant drws nesa
yng ngalaeth Andromeda.

Mae 60 math o gathod,
mae 90% o cylchoedd Sadwrn yn ddŵr.
Mae rhai cŵn yn gallu rhedeg yn gynt na cheetah
a Usain Bolt, dwi'n siwr.

Yn y ffeithiau mae 'na berthyn
rhwng y byd
a ni'n fan hyn.

AMDANOM NI

Ysgol Rhostryfan

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

Fy Natur i

Pan dwi wedi cyffroi,
Dwi'n gwenu fel yr haul ar hanner dydd
Dwi fel llosgfynydd yn barod i ffrwydro
Dwi'n sboncio fel cangarŵ

Pan dwi'n ofnus
Dwi'n clywed fy nghalon fel swm traed cheetah
Dwi'n teimlo Pili Pala yn cosi tu mewn
Dwi'n teimlo chwys fel gwllith ar fy nghledrau

Pan dwi'n hapus
Dwi'n dawnsio fel brigau yn y gwynt
Dwi'n chwerthin fel hyena
Dwi'n neidio fel cwningen

Pan dwi'n flin
Dwi'n gweiddi fel taran yn taro'r llawr yn y nos
Dwi'n gwylltio fel storm
Dwi rhoio fel llew llwglyd.

AMDANOM NI

Ysgol Rhosgadfan
crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

Y Gwynt

Lle bu'r gwynt?
Yn chwibanu,
Yn oeri,
Yn bwerus,
Yn gweiddi?
Lle bu'r gwynt
Yn gofalu
Yn gwthio
Yn gweld
Yn gwrando?
Lle bu'r gwynt
Yn heneiddio
Yn troelli
Yn ddiereidus
Yn gwirioni?

Bu'r gwynt yn profi...
Gwreiddiau'r coed fel neidr
Y llyn llonydd
Y llygaid bach du
Y mynyddoedd gwyn
Lliwiau'r enfys yn llifo
Mynydd o goed
Yr Haul bach
Lliwiau llachar yr awyr
A dau gwch unig.

Ond bu hefyd
Ar fynydd eliffant pan o'n i'n ddwy oed
Yn hel llys ar Moel Tryfan
Yn gwrando ar y dwr tawel yn Pont yr afon
Ar ben yr Wyddfa efo Osian

AMDANOM NI

Yn cario arogl ffarm
Yn chwarae ar chwyrligwgan ein parc
Yn trio dwyn pel y Mountain Rangers

A bu'r gwynt yn sibrwd straeon
Kate Roberts.

Do, bu'r gwynt yn hedfan
Yn rhydd uwch Rhosgadfan.

AMDANOM NI

Ysgol Santes Helen
crëwyd y gerdd gyda'r bardd Anni Llŷn

O Ben Twtil

O ben Twtil
mae'r cymylau fel eliffantod enfawr
a'r mynyddoedd pell yn cuddio oddi tanyn nhw
yn bowlenni ben i lawr
a phob coeden yn gawr.
Ond mae'r castell fel tegan,
yn fychan, fychan.
Ar ben Twtil
rydan ni 'n sefyll
am ddauddeg dau munud wedi dau
ar yr ail o'r ail, dwy fil dauddeg dau
a mwd ar ein hesgidiau.
Rydan ni'n teimlo
yn hapus fel blodyn hardd
yn nerfus fel diwrnod cymylog
yn flin fel seren yn llosgi.
Ond ni yw lliw glas y Fenai
ni yw'r anifeiliaid dewr
ni yw'r gwynt sy'n rhydd
ni yw'r afonydd.
O ben Twtil
ni yw y byd.

AMDANOM NI

Ysgol y Gelli

Geni

Cyn bod sôn am dydd a nos
ac awyr iach a dŵr y ffos
a mynd a dod y moroedd mawr
roedd duwch tew heb gwmni'r wawr.
Nid oedd ond t'wyllwch gwag a maith
a Mawrth yn cychwyn ar ei thaith
ond roedd 'na ran ohonof i
un smic,
ymysg y sêr di-ri.

Mi ro'n i'n ronyn bach, yn bod
cyn i'r gwres a'r nwyon ddod,
a chyn i olau greu fy myd,
a chyn bod daear i mi'n grud.
Mi ro'n i ym'n rhan o'r llwch
yn nofio yn y niwl fu'n drwch,
un curiad chwim mewn calon iach
yn dod i'r byd
yn ddistaw bach.

Bydysawd wyf
o' nghorun i 'nhraed.
Bydysawd wyf
o gig a gwaed.

AMDANOM NI

Ysgol yr Hendre

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Grug Muse

Dŵr a cherrig

Shwsh-shwsh,
mae'r glaw yn disgyn drosta i
ond dwi'm yn poeni gyda thi.
Ac er fod y glaw yn troi y palmant yn fôr
fe ganwn ni gariad y glaw fel un côr.

Sh-sh-sh, gwsh, gwsh, shwish, shwish, shwish,
y dŵr yn mynd dros y cerrig,
yn fwy cryf a mwy peryglus
gyda pob eiliad,
yn fwyfwy pwerus.

Tip-tap, clic-clac, cenllusg a maracas.
Sŵn uchel fel storm, fel miwsig.
Mae'r cerrig yn yr afon yn grwn fel love hearts
yn ddel fel duw, yn grwn fel cragen crwban
yn dywyll fel storm, a miniog fel cyllell.

Shwsh-shwsh, tip-tap, clic-clac,
sh-sh-sh, gwsh, gwsh, shwish, shwish, shwish.

AMDANOM NI

Ysgol yr Hendre

crëwyd y gerdd gyda'r bardd Grug Muse

Dŵr a cherrig

Mae'r dŵr yn unig yn yr afon,
oherwydd mae o ar ei ben ei hun,
a dyna pam mae'n mynd i'r môr.

A dwi'n gryf fel dŵr, yn symud fel y môr,
yn symud dros y cerrig
a'i llyfu fel lolipop,
gwneud tyllau fel dannedd siarc,
gwneud darnau gwydr yn esmwyth a llyfn.

Mae'r cerrig yn y tonnau yn swnio fel arian,
yn swnio fel tegan babi yn cael ei ysgwyd.
Swish, swish, swish, mae darn arall
wedi diflannu a'i wasgaru.

Mae 'na lot o bobol, fel mae na lot o gerrig,
rhai mor drwm a'r byd, rhai llwyd fel cymylau yn yr awyr.
Ac mae dŵr yn medru dysgu chdi, ond dwi
fel carreg, oherwydd dwi'n gryf
a dwi ddim ofn dim byd yn y byd. Neu falle
fel y dŵr, sy'n glir fel ffenest ac oer fel eira.

Weithiau, dwi'n gryf fel carreg,
weithiau dwi'n symud fel y môr.